# Carbon

## Beth yw tanwyddau ffosil?

Mae tri phrif fath o danwydd ffosil: glo, olew a nwy naturiol. Ffurfiwyd y tri filiynau o flynyddoedd yn ôl yn ystod oes y dinosoriaid o ffosiliau, neu weddillion, anifeiliaid a phlanhigion marw a gladdwyd dan bridd a chreigiau. Fe wnaeth gwres o'r ddaear a phwysau'r pridd a'r creigiau arnynt newid y ffosiliau hyn yn olew, nwy naturiol a glo. Oherwydd ei bod yn cymryd miliynau o flynyddoedd i greu neu “adnewyddu” mwy o danwyddau ffosil, rydym yn eu galw'n “danwyddau anadnewyddadwy.” Ar hyn o bryd mae pobl yn defnyddio tanwyddau a grëwyd fwy na 65 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Unwaith bydd y tanwydd yma wedi ei ddefnyddio i gyd, bydd wedi mynd am byth.

## Ôl troed carbon

Pan fyddwn yn defnyddio tanwyddau ffosil, fel olew gwresogi i gadw'r tŷ'n gynnes neu betrol yn ein car, mae carbon deuocsid ($CO_2$) yn cael ei greu. Mae carbon deuocsid yn nwy tŷ gwydr. Mae llawer o wyddonwyr yn credu bod nwyon tŷ gwydr yn gwneud y ddaear yn rhy gynnes. Ein hôl troed carbon yw cyfanswm y $CO_2$ yr ydym yn ei greu. Mae ôl troed carbon mawr yn golygu ein bod yn cynhyrchu llawer o $CO_2$ a'n bod yn cael mwy o effaith ar y blaned.

## Mae carbon deuocsid ($CO_2$) yn ynni gwastraff

Bob tro y byddwn yn defnyddio ynni ddaw o danwyddau ffosil, byddwn yn creu $CO_2$ sy'n cynyddu ein hôl troed carbon. Meddyliwch am $CO_2$ fel ynni gwastraff; dyma sy'n cael ei greu wrth inni gyflawni ein gweithgareddau bob dydd.

## Trydan

Y trydan y byddwn yn ei ddefnyddio yn ein cartref yw'r hyn sy'n cyfrannu fwyaf at ein hôl troed carbon. Er nad yw trydan yn creu nwyon tŷ gwydr pan fyddwn yn ei ddefnyddio, mae'r gweithfeydd pŵer sy'n cynhyrchu trydan, trwy ddefnyddio tanwydd ffosil fel glo, yn creu $CO_2$.

## Gwresogi eich cartref

Cadw'n gynnes yn y gaeaf yw'r ail brif ffynhonnell o $CO_2$ ac mae'n cyfrannu at ein hôl troed carbon. Mae ein cartrefi'n defnyddio tanwyddau ffosil fel olew, nwy neu drydan i danio systemau gwres canolog i'n cadw'n gynnes. Mae faint o $CO_2$ y bydd ein cartref yn ei greu'n dibynnu ar y math o danwydd y byddwn yn ei ddefnyddio a pha mor uchel y byddwn yn gosod y thermostat gwres.


## Ffynonellau eraill carbon deuocsid

Pan fyddwn yn defnyddio car y teulu, mae'n cyfrannu at ôl troed carbon cyffredinol ein teulu. Mae hynny oherwydd bod car yn defnyddio petrol neu ddisel fel tanwydd ac yn creu gwastraff sy'n cynnwys $CO_2$. Mae bysus, trenau ac awyrennau'n creu $CO_2$ hefyd. Mae ein sbwriel yn cyfrannu at ein hôl troed carbon hefyd. Dros amser, bydd sbwriel yn cynhyrchu $CO_2$ a methan (math arall o nwy tŷ gwydr) wrth iddo ddadelfennu.

## Lleihau eich ôl troed carbon

Y ffordd orau i leihau ein hôl troed carbon yw:

- Defnyddio llai o drydan a llai o danwydd ffosil
- Cofiwch ddiffodd y cyfrifiadur, y teledu a'r golau pan nad ydych yn eu defnyddio
- Trowch dymheredd gwres canolog eich cartref i lawr yn ystod y gaeaf
- Defnyddiwch gludiant cyhoeddus yn lle'r car, neu'n well fyth ewch ar y beic neu cerddwch
- Dylem leihau cyfanswm y sbwriel y byddwn yn ei greu trwy ailgylchu ac ailddefnyddio eitemau, ble bynnag y bo modd.




## Mae coed yn storfa garbon

Mae plannu coed yn ffordd effeithiol o leihau eich ôl troed carbon. Wrth iddynt dyfu, bydd coed yn amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer trwy broses ffotosynthesis ac yn ei storio fel carbon ar ffurf pren.

Tra bod coeden yn iach ac yn tyfu bydd yn dal gafael ar y carbon gan amsugno mwy trwy gydol ei hoes. Os defnyddir y pren ar gyfer adeiladu bydd y carbon yn aros 'dan glo' tan iddo gael ei losgi neu ei adael i bydru.

Mae plannu mwy o goed yn sicrhau llu o fuddiannau eraill hefyd fel rhan o reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol, gan ddarparu cynefinoedd, ffynonellau bwyd, lloches i fywyd gwyllt, glanhau'r aer, sefydlogi pridd ac atal llifogydd.




### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**